**Adroddiad i'r:** Cyngor Sir

**Dyddiad y Cyfarfod:** 17 Hydref 2017

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio

**Awdur yr Adroddiad:** Nicola Kneale, Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol

**Teitl:** **Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2017-2022**

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2017-2022

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Mae angen penderfyniad i gymeradwyo fersiwn drafft terfynol o Gynllun Corfforaethol, 2012 - 17 (sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn).

2.2 Rhoi gwybodaeth i'r Cyngor am Strwythur y Bwrdd Rhaglen er mwyn cefnogi'r broses o gyflenwi'r Cynllun (Atodiad II), a'r Strategaeth Gyfathrebu yn Atodiad III.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Argymhellir, yn amodol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt, bod Aelodau yn cymeradwyo drafft terfynol Cynllun Corfforaethol 2012-17 i alluogi cyfieithu a chyhoeddi'r ddogfen.

3.2 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad IV) fel rhan o'i ystyriaethau.

**4. Manylion yr adroddiad**

Mae'n ofyniad statudol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi Cynllun Gwella, a Chanlyniadau Lles. Mae Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych yn 2017 - 2022 yn cyflawni'r ddwy swyddogaeth hyn, ond mae'n ddogfen hanfodol i ni am nifer o resymau ychwanegol:

a. Mae cytuno ar, ac egluro'n gweledigaeth a'n huchelgais yn y modd yma o gymorth i ni gyfathrebu.

b. Mae’r arweinyddiaeth gorfforaethol sy’n deillio o ganlyniad i gael Cynllun Corfforaethol yn ein galluogi i herio amcanion trawsbynciol, e.e. cynnal pobl ifanc.

4.2 Y maen prawf ar gyfer beth sy'n gwneud Blaenoriaeth yw “rhywbeth newydd a fydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i’n trigolion”. Mae’r prif addewidion yr ydym wedi ymrwymo iddynt i’w cyflawni o fewn y cynllun hwn yn bwysig gan eu bod un ai:

a. Angen cyllid cyfalaf / refeniw sylweddol: e.e. ffyrdd ac ysgolion newydd (ond nid oes angen cyllid ychwanegol ar gyfer popeth);
b. Angen newid diwylliannol / sefydliadol sylweddol: e.e. y ffordd rydym yn ymgysylltu gyda chymunedau, ac / neu
c. Byddant yn cael effaith ar draws y sir: e.e. 1000+ o dai ychwanegol.

4.3 Bydd pob gweithgarwch arall yn cael ei gynnwys yn ein Portffolio Corfforaethol.

4.4 Mae’r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol hwn wedi eu cyrraedd drwy broses glir a thrwyadl o gasglu tystiolaeth a dadansoddi (Asesiad Lles) ac ymgynghori dwys gyda’n cymunedau (Sgwrs y Sir).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y penderfyniad yn sefydlu'r Blaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer tymor y Cyngor 2017 – 2022.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn cynnwys strategaeth ariannol pum mlynedd sy'n amlinellu'r buddsoddiad cyfalaf a ragwelir sydd ei angen i gyflawni'r blaenoriaethau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

Mae’r asesiad effaith yn ystyried effaith ein dull gweithredu a’n cynnig i ddatblygu'r cynllun corfforaethol nesaf. Rydym bellach wedi cwblhau cam 1 a 2 sgwrs y sir ac wedi gweithio gyda'r Cyngor newydd i siapio 5 blaenoriaeth a'r uchelgais ar gyfer pob un.

Mae’n sgôr Datblygu Cynaliadwy yn dweud wrthym fod mwy o sgôp i ystyried y berthynas rhwng y CDLl (cyfredol ac arfaethedig, pan gaiff ei ddatblygu) a’r flaenoriaeth tai ddrafft. Rydym yn hyderus y bydd y cynllun corfforaethol newydd yn darparu cynllun ar gyfer cyd-nerthu cymunedol, yn rhannol drwy wneud y mwyaf o’n

hasedau. Fodd bynnag, rydym yn teimlo mai dros y tymor canolig mae ffocws y blaenoriaethau drafft. Rhaid i ni sicrhau fod gan gymunedau a rhanddeiliaid gyfleoedd parhaol i gael ymwneud wrth ddatblygu'r cynllun hwn, ac wrth ei roi ar waith.

Rydym yn hyderus fod y blaenoriaethau newydd arfaethedig yn canolbwyntio ar gyd-nerthu cymunedol ac yn annog ymagweddau gwahanol i atal problemau rhag codi.

Yn gyfangwbl mae'r effaith ar y 7 amcan o ran lles yn bennaf yn gadarnhaol. Mae arnom angen mwy o wybodaeth er mwyn penderfynu beth yw'r effaith ar Gymru decach, ac yn hanfodol, beth allwn ni ei wneud i wneud y mwyaf o effaith bositif ar bobl sydd â nodweddion sydd wedi eu hamddiffyn. Mae posibilrwydd o ganlyniadau negyddol ar rai nodweddion sydd wedi eu hamddiffyn a dylid ymdrin â'r rhain a'u rheoli er mwyn eu hatal rhag digwydd. Rydym wedi darganfod mai effaith niwtral sydd ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, ond yn nodi fod y Strategaeth Iaith Gymraeg yn sail i'r cyfan rydym yn ei wneud.

Bydd y cynllun corfforaethol yn cael ei reoli drwy ddefnyddio methodoleg rheoli rhaglen. Bydd angen cwmpasu, datblygu achos busnes ac asesiadau effaith manwl ar gyfer rhan o'r fethodoleg hon.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Mae llawer o ymgynghori wedi ei wneud o dan ymbarél Sgwrs y Sir. Y bwriad cychwynnol oedd sefydlu'r blaenoriaethau, ac yna profi os oedd ein dehongliad o farn y bobl ar 'beth ddylai fod yn flaenoriaeth' yn gywir. Roedd ymgyngoreion yn cynnwys y cyhoedd, partneriaid, staff, Aelodau a Chynghorwyr Tref a Chymuned.

8.2 Unwaith roedd blaenoriaethau wedi eu drafftio, cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda staff Cyngor Sir Ddinbych a sefydliadau partner perthnasol er mwyn cynhyrchu syniadau ar gyfer sut dylid mynd i'r afael â blaenoriaethau.

8.3 Mae'r syniadau a gynhyrchwyd wedi eu datblygu gyda grŵp trawsbleidiol o Aelodau gyda chefnogaeth rhai swyddogion hefyd, er mwyn dod i gasgliad fod yr addewidion rydym wedi ymrwymo iddynt yn ddigon uchelgeisiol ond hefyd yn realistig.

8.4 Ar ôl mabwysiadu'r cynllun hwn, bydd hyrwyddo ei gynnwys gyda'n staff yn flaenoriaeth, gan gyflwyno negeseuon iddynt ac i Aelodau am sut gallant

gynorthwyo i gyflawni'r Cynllun. Bydd staff yn cael gwybod drwy Linc (llwyfan newydd y fewnrwyd), neges fideo Mohammed a drwy Sir Ddinbych Heddiw. Bydd y neges fewnol i staff hefyd yn cael ei gynnwys ym mhob sesiwn briffio staff perthnasol ar lefel gwasanaeth a lefel tîm. Bydd trosolwg llawn o'r cynllun yn cael ei drafod yng nghynhadledd arweinyddiaeth Sir Ddinbych. Bydd y tîm Cynllunio Strategol yn sicrhau fod ymwybyddiaeth o'r Cynllun Corfforaethol yn ofyniad allweddol wrth i wasanaethau gynllunio busnes.

8.5 Bydd Sgwrs y Sir yn parhau drwy fywyd y Cynllun Corfforaethol, fel yr amlinellir yn y Strategaeth Gyfathrebu yn Atodiad III. Er mwyn lansio'r Cynllun Corfforaethol bydd tudalennau'r wefan gorfforaethol yn cael eu hail lansio gyda thudalen newydd ar gyfer pob blaenoriaeth. Bydd pob dull o gyfathrebu allanol yn cynnwys dolen yn ôl i'r tudalennau hyn. Bydd datganiadau i'r cyfryngau yn cael eu cyhoeddi unwaith bydd y Cyngor wedi cymeradwyo'r cynllun. Bydd y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i hyrwyddo'r ffaith fod y cynllun wedi ei fabwysiadu, gan ganolbwyntio ar bob blaenoriaeth dros gyfnod o wythnos. Bydd taflen wybodaeth a thaflen grynodeb hefyd yn cael eu cynhyrchu er mwyn cynorthwyo i hyrwyddo'r wybodaeth fanwl. Fel bydd pob blaenoriaeth yn cael ei datblygu ymhellach ac fel byddwn yn llwyddo, bydd Strategaeth Gyfathrebu'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei defnyddio i gadw ffocws ar y cynllun.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi gweledigaeth y cyngor dros y cyfnod cyfredol. Mae'n cynnwys blaenoriaethau a chyfresi o gamau gweithredu neu syniadau arfaethedig er mwyn cynorthwyo i'w cyflawni. Mae buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn angenrheidiol ar gyfer rhai o'r rhain, mae ar eraill angen cyllid refeniw a gellir cyflawni rhai drwy ddefnyddio adnoddau cyfredol.
Mae strategaeth ariannol wedi ei chynhyrchu sy'n nodi sut y gellid ariannu'r Cynllun. Amcangyfrifwyd y bydd y Cynllun yn costio £135 miliwn ond bydd hyn yn newid wrth i fanylion ddatblygu. Bydd rhai eitemau penodol o fewn y Cynllun, fel y band nesaf o gynigion gwella ysgolion, yn derbyn cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu.
Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon sydd wedi eu drafftio hyd yma, gallai cyfraniad y Cyngor fod yn oddeutu £71 miliwn, er y rhagdybir y byddai tua £25 miliwn o hwn yn dod o'r Cyfrif Refeniw Tai. Byddai'n rhaid dod o hyd i'r gweddill o adnoddau cyfredol neu ychwanegol y cyngor.
Mae'n glir y bydd angen cyllid ychwanegol er mwyn cefnogi'r lefel hwn o fuddsoddiad a bydd yn rhaid cytuno ar benderfyniadau cyllido yn unol â strategaeth gyllido ehangach y cyngor. Bydd buddsoddi ym mlaenoriaethau'r Cynllun

Corfforaethol yn golygu fod llai ar gael ar gyfer meysydd gwasanaeth eraill. Bydd penderfyniadau cyllido yn dod yn fwy anodd dros y blynyddoedd nesaf felly bydd yn rhaid i'r Cynllun fod yn ddigon hyblyg i ymateb i heriau ariannol. Ni fydd unrhyw fuddsoddiad yn cael ei wneud heb gytuno ar achos busnes clir a fforddiadwy yn dilyn prosesau cymeradwyo'r cyngor.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Ni ragwelir unrhyw risgiau amlwg os byddwn yn llwyddiannus wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

10.2 Bydd risgiau a allai beryglu cyflenwi'r cynllun, a bydd y rhain yn cael eu hystyried a'u rheoli ar lefel bwrdd rhaglen unwaith bydd y Cynllun yn symud ymlaen i'r cam cyflenwi.

10.3 Bydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei hadolygu yn gynnar yn 2018 er mwyn paratoi at y flwyddyn ariannol nesaf, a bydd hyn yn cynnwys unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r Cynllun Corfforaethol newydd. Bydd y Gofrestr Risg ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn gynnar yn 2018.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Rhaglen Lywodraethu Cymru 2009
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015